

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd

Cyfarfod:

Dyddiad:

Amser:

Lleoliad:

Bwrdd Ein Rhyl

Dydd Gwener 18 Medi 2026

3:00pm- 5.00pm

Canolfan Ieuenctid y Rhyl

Aelodau'r Bwrdd:	Craig Sparrow, Cadeirydd		Gill German, AS		Justin Bell, Is-gadeirydd	
	[Sedd wag] Aelod Arweiniol		Y Cyngorydd Barry Mellor		Nadeem Ahmed	
	Sue Nash		Julie Pierce		Emma Watling	
	Linzi Jones		Jonathan Pico		Leonie Wainwright	
	Simon Keeting					
Ymgynghorol/Cefnogae th:	Peter James		Natalie Nolan		Tony Ward	
	Janine Downing		Martin Williams		Cefnogaeth y Rhaglen	
Gwahoddwyd:						
Ymddiheuriadau:	I'w gweld mewn coch					

1.	Croeso Ymddiheuriadau a Datgan Cysylltiad Cyflwynodd pawb eu hunain. Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.	Y Cadeirydd	3.00pm 5 munud
2.	Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd - 24 Gorffennaf 2026 Nododd y Bwrdd eu diolch i'r Is-gadeirydd am gadeirio'r cyfarfod blaenorol. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2026.	Y Cadeirydd	5 munud
3.	Diweddariad y Cadeirydd	Y Cadeirydd	10 munud

	Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch newidiadau gwleidyddol o fewn Cyngor Sir Ddinbych, ac yn sgil hynny bod sedd Aelod Arweiniol Awdurdod Lleol y Bwrdd yn wag. Eglurwyd bod canllawiau'r rhaglen wedi newid ers cyflwyno rôl yr Aelod Arweiniol yn wreiddiol. Nawr mae canllawiau Balchder Bro yn nodi bod yn rhaid cael o leiaf un Cynghorydd i gynrychioli ward, ac felly gall y Bwrdd ddewis a ydynt am gadw sedd Aelod Arweiniol yr Awdurdod Lleol ai peidio. Atgoffwyd y Bwrdd hefyd bod sedd wag ar gael ar gyfer cynrychiolydd pobl ifanc a bod rôl yr AoS hefyd yn wag, sy'n fater ar wahân a fydd yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Ystyriodd yr Aelodau fuddion a risgiau tynnu rôl yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd. Roedd y drafodaeth yn cynnwys pwysigrwydd cynnal cymeriad y Bwrdd sy'n cael ei arwain gan y gymuned, osgoi dylanwad gwleidyddol di-angen, sicrhau cysylltiadau priodol gyda'r Cyngor, cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol, a sefydlu cysail cyson ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Soniwyd hefyd am etholiadau'r Cynghorwyr ym mis Mai 2027. Nodwyd mai'r aelod amgen posibl fyddai'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolio adfywio'r Rhyl ac y byddai angen i unrhyw aelod newydd dderbyn cyflwyniad clir ac eglurhad o'u rôl. Penderfyniad: Pleidleisiodd y Bwrdd yn unfrydol i gadw a disodli (gyda'r aelod cyfatebol agosaf) rôl Aelod Arweiniol yr Awdurdod Lleol. Cam Gweithredu: Tony Ward i drafod aelodaeth y Bwrdd gyda'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolio cyfatebol a threfnu sesiwn gyflwyno briodol. Roedd y Bwrdd hefyd wedi ystyried datganiadau diddordeb gan Brighter Futures a dau unigolyn sy'n dymuno ymuno â'r Bwrdd. Cytunodd yr aelodau bod y Bwrdd yn ddigon mawr ac na ddylid creu swyddi ychwanegol ar y Bwrdd ar hyn o bryd. Gellir gwahodd sefydliadau neu unigolion sydd â diddordeb i ymuno â'r grwpiau gweithredu ar ôl eu sefydlu a, lle bo'r bwrdd yn teimlo bod hynny'n berthnasol, gellir gofyn iddynt wneud cyflwyniad i'r Bwrdd. Nodwyd y dylai'r ymatebion i bob Datganiad Diddordeb egluro trefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Bwrdd.		
--	---	--	--

	Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol na ddylid creu unrhyw swyddi ychwanegol ar y Bwrdd ar hyn o bryd. Nododd y Cadeirydd ar gyfer y cofnodion eu bod wedi talu am eu costau teithio a llety ar gyfer mynychu'r cyfarfod Cadeiryddion Balchder Bro yn Llundain yn ddiweddar eu hunain. Roedd y drafodaeth yn nodi bod angen polisi cynhaliaeth a threuliau clir ar gyfer gweithgarwch y Bwrdd yn y dyfodol, a nodwyd bod gan y Cadeirydd hawl i hawlio'r costau hynny ac nad oes angen eu hariannu'n bersonol. Cam Gweithredu: Llunio polisi cynhaliaeth a threuliau.		
4.	Gwybodaeth Budd-ddeiliaid y Rhyl - Cyngor Sir Ddinbych (CSDd), Cyngor Tref y Rhyl (CTRh). Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad CSDd ar y cynigion ar gyfer Pentref y Plant. Cafwyd 77 o ymatebion, gyda 42 yn cefnogi'r angen i glirio a gwella'r ardal a 15 yn gwrthwynebu'r cynigion yn llwyr. Nid oedd yr 20 o ymatebion eraill yn berthnasol i'r cynigion. Sefydlwyd 2 ddeiseb ar-lein (yn bennaf oherwydd dyhead i gael atyniad dŵr sydd am ddim i'w ddefnyddio), ond derbyniwyd e-bost gan drefnydd y ddeiseb y diwrnod ar ôl y digwyddiad ymgynghori cyhoeddus a oedd yn cefnogi cynigion Pentref y Plant ond yn parhau i nodi'r dyhead yn lleol am atyniad dŵr sydd am ddim i'w ddefnyddio. Nodwyd diddordeb y gymuned mewn atyniadau dŵr neu deuluol yn y dyfodol, gan gydnabod efallai nad yw safle Pentref y Plant yn addas ar gyfer cynigion o'r fath. Trafodwyd hefyd y byddai angen amser i ddatblygu unrhyw gynnig ar gyfer atyniad o'r fath, a byddai angen trafodaeth gyda budd-ddeiliaid ehangach ac ystyried sut y gellir ei gynnal a'i gadw. Nodwyd nad oes unrhyw beth yn atal cynnal trafodaethau mewn perthynas â dewis lleoliad amgen ar gyfer atyniad o'r fath. Disgwylir i gynigion Pentref y Plant symud ymlaen i Gabinet CSDd ym mis Hydref. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd ystyried ymddygiad gwrthgymdeithasol, gofynion cynnal a chadw a rheoli hirdymor yn nyluniad y parth cyhoeddus a phrosiectau isadeiledd gwyrdd. Gofynnodd yr aelodau am ddeunydd gweledol sy'n fwy eglur ar gyfer cynigion Pentref y Plant.	CSDd	20 munud

	Cam Gweithredu: Cyflwyno deunydd gweledol pellach ar gyfer cynigion Pentref y Plant yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltiad ‘Y Sgwrs Fawr’ gan Gyngor Tref y Rhyl yn ddiweddar. Mae’r ymgysylltiad wedi cau yn awr, ac adolygwyd yr adborth a’i ddatblygu i ffurfio cynllun. Cynhelir trafodaeth bellach gyda’r Cyngor Tref i rannu cynlluniau, osgoi dyblygu a nodi cyfleoedd i gydweithio.		
5.	Cymeradwyo: Gweledigaeth y Cynllun, y Canlyniadau, Amcanion a’r Cynllun Buddsoddi 4 blynedd. Yn dilyn ymgysylltiad y Gwanwyn / Haf, eglurwyd bod yr adborth gan y gymuned wedi’i gasglu a’i ddadansoddi mewn cydweithrediad gyda’r adborth a rannwyd gan bartïon allanol ynghyd ag ymgysylltiad 2025. Roedd y neges gyson ar draws yr holl gyfresi data a ddadansoddwyd yn hynod gryf ac wedi’i drosi yn Weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer newid, canlyniadau ac amcanion y rhaglen a’r camau cychwynnol, a oedd oll wedi’u cofnodi a’u tystiolaethu yn adrannau diwygiedig Cynllun Ein Rhyl. Eglurwyd tystiolaeth, gweledigaeth, canlyniadau, amcanion a chatau gweithredu’r ymgysylltiad i’r Bwrdd i ddangos bod y Cynllun diwygiedig yn seiliedig ar anghenion y gymuned a’r dyheadau ar draws yr holl gyfresi data a ddadansoddwyd ar gyfer y Rhyl. Nodwyd hefyd bod rhaglen Ein Rhyl wedi’i alinio â themâu Balchder Bro a’r ymyraethau, sy’n darparu’r fframwaith ar gyfer y cyllid. Ystyriodd y Bwrdd adrannau newydd arfaethedig y Cynllun, gan gynnwys y weledigaeth, canlyniadau, amcanion a’r cynllun buddsoddi 4 blynedd, sy’n cynnwys y camau cychwynnol. Nododd yr Aelodau ehangder a chymhlethdod y materion a nodwyd drwy’r rhaglen a phwysigrwyd defnyddio’r Bwrdd fel llwyfan i dwyn partneriaid a rhaglenni eraill ynghyd ar gyfer darpariaeth. Roedd y drafodaeth hefyd yn ystyried a allai’r Bwrdd dderbyn swyddogaeth sy’n fwy gweithredol o ran darpariaeth uniongyrchol, er enghraifft, digwyddiadau yn y dyfodol, yn amodol ar drefniadau llywodraethu a chyfansoddiadol priodol. Penderfyniad: Cymeradwywyd gweledigaeth y Cynllun, canlyniadau, amcanion a’r cynllun buddsoddi 4 blynedd yn unfrydol.	Rheolwr Rhaglen	40 munud

	Cam Gweithredu: Bydd adrannau'r Cynllun sy'n weddill yn cael eu hailddrafftio a'u rhannu gyda'r Bwrdd.		
6.	Syniadau Ymgysylltu Parhaus Cadarnhaodd y Bwrdd y bydd ymgysylltiad cymunedol rheolaidd yn hanfodol drwy gydol y rhaglen 10 mlynedd. Eglurwyd y bydd yn bwysig adrodd canfyddiadau'r ymgysylltiad yn ôl i gymuned y Rhyl, gan gynnwys drwy fersiwn byr a hygyrch o'r Cynllun, cyhoeddi data di-enw ar y wefan (yn amodol ar gymeradwyaeth briodol) a chanfod ffyrdd o ymgysylltu i rannu canlyniadau. Roedd yr holl Aelodau'n croesawu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer ymgysylltiad cymunedol parhaus. Cyflwynwyd cynnig ar gyfer Ein Rhyl i gymryd rhan mewn digwyddiad cerddoriaeth proffil uchel ar y dydd Iau cyn gŵyl The Gathering ym mis Ionawr. Bwriad y cysyniad oedd cefnogi ymgysylltiad cymunedol parhaus, creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i gymryd rhan yng nghynhyrchiad y digwyddiad, perfformiad a ffilmio'r digwyddiad proffil uchel, cynyddu nifer yr ymwelwyr, atgyfnerthu cynnig cerddoriaeth a digwyddiadau'r Rhyl a darparu llwyfan i hyrwyddo'r dref yn ehangach. Gallai brwydr y bandiau ar gyfer pobl ifanc, gan gydweithio gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid yn y Rhyl, fod yn rhan o'r digwyddiad hefyd gyda chystadlaethau ac ati a chyfle i weithio gyda sefydliadau eraill ac atgyfnerthu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc y Rhyl. Eglurwyd hefyd y gallai fod yn ffordd ddiddorol o godi proffil Ein Rhyl gyda phobl ifanc ac yn ffordd o lenwi sedd wag person ifanc ar y Bwrdd. Eglurwyd bod Cyngor Tref y Rhyl wedi cytuno i ddarparu cefnogaeth, a gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a fyddai Ein Rhyl hefyd yn hoffi darparu cefnogaeth (awgrymwyd cyfraniad o £15,000) a chymryd rhan, yn enwedig o safbwynt ymgysylltu a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc. Er nad oedd Gill German, AS, yn bresennol yn y cyfarfod, rhannwyd datganiad byr yn ei habsenoldeb yn amlinellu bod hyn yn gyfle rhagorol yn enwedig i bobl ifanc allu cyfranogi mewn digwyddiad proffil uchel ac i greu cysylltiad gydag Ein Rhyl. Mae hefyd yn darparu ffordd gyffrous o barhau i ymgysylltu â phreswylwyr y Rhyl ac yn gyfle i roi adborth ar ein cynnydd hyd yn hyn. Croesawodd yr Aelodau'r cynnig a'r ymrwymiad gan Gyngor Tref y Rhyl. Cydnabuwyd bod gan y cynnig y potensial i godi	Pawb.	20 munud

	proffil y Rhyl, cynyddu niferoedd ymwelwyr, creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ac ategu at ddigwyddiad cerddorol sefydledig. Ond, codwyd pryderon o ran gwerth am arian, cyfran o gyllideb y rhaglen, capasiti cyfyngedig digwyddiad gyda thocynnau i gyrraedd cymuned ehangach y Rhyl, hygrychedd ar gyfer preswylwyr ar incwm isel, ac a fyddai cyllid cyfatebol yn gallu cyflawni cyfranogiad ehangach drwy ddigwyddiadau llai eraill. Trafododd yr Aelodau a fyddai modd atgyfnerthu'r buddion drwy gynigion tocynnau lleol, gweithgarwch cymunedol cysylltiol neu gyfraniadau elusennol, a oedd oll yn ddewisiadau posibl. Trafododd yr Aelodau drefi eraill ar draws y rhanbarth sydd â phwyntiau gwerthu unigryw eu hunain, a gallai hyn fod yn ffordd o wahaniaethu'r Rhyl yn rhanbarthol, ac yn y cyd-destun hwnnw, mae'r cyllid yn fach o gymharu â'r catalydd y gallai ei greu ar gyfer ailadrodd a thwf digwyddiadau a'i gyfraniad at adfywio canol y dref. Ar ôl pwyso a mesur, roedd y mwyafrif o'r farn nad oedd y cynnig, yn ei ffurf bresennol ac ar y pwynt hwn yn y rhaglen, yn dangos digon o fuddion uniongyrchol a chynhwysol ar gyfer preswylwyr y Rhyl i gyfiawnhau'r ymrwymiad arfaethedig. Penderfyniad: Peidio â chefnogi'r cynnig.		
7.	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Staffio Gadawodd Julie Pierce y cyfarfod. Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a nodi bod y trefniadau staffio bron â bod yn barod i'w hysbysebu.	CSDd	10 munud
8.	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Ystyriodd y Bwrdd sedd wag cynrychiolydd sy'n Aelod o'r Senedd (AoS) yn unol â chanllawiau diwygiedig Rhaglen Balchder Bro gan Lywodraeth y DU. Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i dynnu rôl AoS o strwythur y Bwrdd yn dilyn newid i ganllawiau Llywodraeth y DU. Cam Gweithredu: Sefydlu proses wybodaeth AoS amgen yn unol â chanllawiau Balchder Bro.	Rheolwr Rhaglen	5 munud

	Hysbyswyd y Bwrdd hefyd am newidiadau eraill i ganllawiau Balchder Bro, nad oeddent yn newidiadau polisi sylweddol, ond mân newidiadau yn cynnwys diogelu, cyfryngau cymdeithasol ac asedau. Hysbyswyd y Bwrdd y cynhaliwyd gweminar rheoli cymhorthdal, sy'n ystyriaeth gyfreithiol bwysig ar gyfer darparu cyllid. Cynhelir Digwyddiad Rhwydweithio Cymru ar 24 Medi yng Nghaerdydd gyda 3 Aelod o'r Bwrdd ac 1 Ymgynghorydd yn mynychu. Gadawodd Emma Watling y cyfarfod.		
9.	Unrhyw Fater Arall Nid oedd unrhyw fater arall.	Y Cadeirydd	5 munud
10.	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod Wyneb yn Wyneb 23 Hydref 2026, 3-5pm Darparwyd ymddiheuriadau fod y cyfarfod wedi gorffen yn hwyr. Diwedd y cyfarfod		5.24pm